**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

8 Hydref 2018

Annwyl Kirsty

**SL(5)240 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018**

Yn ein cyfarfod ar 17 Medi 2018, trafodwyd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r pwynt y cyflwynwyd **adroddiad** arno. Yna, ar 21 Medi, cyflwynwyd **adroddiad** i'r Cynulliad.

Yn wreiddiol, roedd Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 yn cynnwys fformiwla syml ar gyfer cyfrifo'r swm ar gyfer lleihau grant neu fenthyciad myfyriwr pan fo'r myfyriwr yn y carchar, neu fel arall yn absennol o gwrs addysg uwch.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2018 trwy ddileu'r fformiwla a'i disodli gyda'r geiriau "mae swm y benthyciad cynhaliaeth neu'r grant sy'n daladwy wedi ei ostwng yn ôl nifer y diwrnodau yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr cymwys yn garcharor / yn absennol o'i gwrs."

Nodwyd ymateb Llywodraeth Cymru nad disodli'r fformiwla â geiriau syml yn newid y polisi. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dweud, mewn perthynas â rheoliadau 8 a 9, fod y rheoliad wedi'i wneud yn fwy caniataol.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn esbonio sut mae'r Rheoliadau wedi'u gwneud yn fwy caniataol, a sut y mae hynny'n cyd-fynd ag ymateb y Llywodraeth i'n pwynt adrodd, sef nad yw'r polisi wedi newid, ac nad yw'r dull o gyfrifo hawl myfyrwyr i gael cymorth ariannol wedi newid chwaith.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.